**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1075
Ein cyf/Our ref DET/03168/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

9 Rhagfyr 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich gohebiaeth dyddiedig 10 Tachwedd ynglŷn â deiseb P-05-1075.

Drwy'r rheolau cenedlaethol, rydym yn ceisio cydbwyso pwysigrwydd chwaraeon ac ymarfer corff i lesiant meddyliol a chorfforol pobl, â'r angen i sicrhau bod pobl yn ddiogel ac i ddiogelu'r GIG.

Mae'r rheoliadau presennol ar gyfer chwaraeon ac ymarfer corff o dan do yn adlewyrchu dull Llywodraeth Cymru o gyfyngu ar faint mae pobl yn dod i gysylltiad agos â grwpiau mawr, ac i leihau'r gyfradd trosglwyddo.

Caiff unrhyw un gymryd rhan mewn chwaraeon neu ymarfer corff mewn grŵp o hyd at 30 o bobl yn yr awyr agor neu 15 o bobl o dan do, os yw'n rhan o weithgaredd wedi'i drefnu, sy'n cael ei reoli, er enghraifft, gan gampfa, canolfan hamdden neu glwb chwaraeon. Fel arfer byddai hyfforddwyr neu swyddogion gêm yn cael eu hystyried yn gyfranogwyr, felly, dylai'r terfyn o 30 neu 15 eu cynnwys nhw. Caiff unrhyw un sydd yno i drefnu neu gefnogi'r gweithgaredd, os yw'n gweithio neu'n darparu gwasanaeth gwirfoddol, fod yn bresennol heb gael ei gyfrif yn y terfyn o 30 neu 15. Mae plant o dan 11 oed hefyd yn cael eu heithrio o'r uchafswm yn y cynulliad.

Caniateir i grwpiau ac unigolion ymgynnull ar yr un pryd hefyd, o dan do ac yn yr awyr agored, lle mae digon o le i wneud hynny'n ddiogel ac yn annibynnol.

Mae gan drefnwyr a'r rheini sy'n gyfrifol am y safle ddyletswydd i roi pob mesur rhesymol ar waith i leihau'r risg o ledaenu'r coronafeirws, gan gynnwys sicrhau bod digon o le i ganiatáu cadw pellter cymdeithasol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid oes terfyn ar nifer y plant a gaiff hwyluso neu gymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon wedi'i ddatblygu er mwyn datblygiad neu lesiant plant. Rhaid i'r gweithgaredd gael ei drefnu a'i oruchwylio gan gorff cyfrifol fel clwb chwaraeon, corff cyhoeddus, elusen neu gampfa neu ganolfan hamdden. Cyfyngir ar nifer y plant o dan 18 mlwydd oed a all gymryd rhan yn gyfreithiol gan derfynau'r lleoliad a'r angen i ddigon o oedolion fod yn bresennol i oruchwylio'r gweithgaredd.

Rydym yn llawn ymwybodol o'r heriau mae'r sector yn eu hwynebu, ac yn ystod blwyddyn sydd wedi bod yn heriol iawn ar gyfer chwaraeon, rydym yn gweithio gyda chyrff llywodraethu i asesu pa gymorth ychwanegol a all fod ei angen. Ynghynt yn 2020 gwnaethom gyhoeddi Cronfa Adfer Chwaraeon a Hamdden gwerth £14 miliwn i helpu'r sector ymdopi â'r pandemig, ac i baratoi i ddychwelyd mewn modd diogel a chyfrifol.

Rydym yn parhau i gydnabod yr ymdrech a'r aberth enfawr mae'r cyhoedd a busnesau yng Nghymru wedi eu gwneud i ddiogelu Cymru ac i achub bywydau. Rydym yn parhau i ystyried adborth gan y cyhoedd, a dyma un o'r rhesymau rydym wedi penderfynu i beidio â chynnwys rhagor o gyfyngiadau ar y sector chwaraeon a hamdden pan fydd mesurau ychwanegol yn dod i rym ar 4 Rhagfyr.

Yn gywir,



**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism